CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gyfrwng fideo gynadledda ddydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Ellie Chard, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a Peter Scott

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Swyddog Monitro/Llywodraethu a Busnes (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG); Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Dros Dro (DS); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Prif Reolwr – Cefnogi Ysgolion (JC); Cydlynydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ, NPH a RTJ [Gweddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Julie Matthews gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Gosod Rhent Tai a Chyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2023/24, oherwydd bod ganddi ffrindiau a theulu a oedd yn byw mewn tai cyngor.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022.

Materion yn Codi – Tudalen 9, Eitem 6 Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Diwygiedig – dywedodd y Cynghorydd Win Mullen-James fod y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

5 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2023/24

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gynnydd rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

Rhoddwyd rhywfaint o gefndir i'r adroddiad, gan gynnwys y cefndir economaidd gyda'r argyfwng costau byw a'r cynnydd o 10.1% mewn chwyddiant (CPI) a chynnydd o hyd at 30% ar gyfer costau rhaglen gyfalaf a chynnal a chadw. O ganlyniad, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm cynyddu rhent o 6.5% yng Nghymru (7% wedi'i osod gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr), ynghyd â chytuno ar rai diwygiadau ychwanegol â'r sector tai. Cynigiwyd cynyddu rhenti wythnosol o 5%, gan arwain at rent wythnosol cyfartalog o £102.31 (cynnydd o £4.87 mewn rhent wythnosol). O gyflawni'r cynnig, cafwyd cydbwysedd rhwng cynnal a chadw a buddsoddi yn y stoc dai, a'r effaith ar denantiaid o ganlyniad i'r cynnydd.

Arweiniodd y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol y Cabinet trwy fanylion yr adroddiad ac effaith yr hinsawdd economaidd bresennol o ran buddsoddi yn y stoc dai i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (gan gynnwys targedau amgylcheddol/effeithlonrwydd tanwydd) ac ariannu rhaglenni adeiladu newydd ynghyd â'r effaith ar denantiaid a chyllid aelwydydd. Fel rhan o'r broses o osod rhent, cynhaliwyd asesiad o effeithlonrwydd cost, gwerth am arian a fforddiadwyedd i denantiaid, ac roedd hyder bod gwaith wedi dangos bod rhenti'n fforddiadwy, gyda rhenti Sir Ddinbych ar yr ochr isaf o ran y rhent darged ac yn cael eu monitro'n barhaus.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y canlyniad a ragwelir ar gyfer Cyfrif Refeniw Tai 2022/23, yn unol â'r adroddiad monitro misol gyda'r balansau a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £2,157 miliwn. Eglurwyd hefyd effaith y cynnydd mewn rhent ar Gynllun Busnes y Stoc Dai, gyda phob 1% o gynnydd mewn rhent yn darparu £170,000 o incwm refeniw bob blwyddyn er mwyn caniatáu £3.5 miliwn o fenthyciad ar gyfer buddsoddiad dros gyfnod Cynllun Busnes y Stoc Dai. Byddai'r argymhelliad i gyflwyno cynnydd o 5% ac nid 6.5% yn costio tua £250,000 i'r Cyfrif Refeniw Tai bob blwyddyn o Gynllun Busnes y Stoc Dai. Byddai cynnydd o 5% werth £850,000, gan arwain at fuddsoddiad o £8.5 miliwn dros ddeng mlynedd. Nodwyd bod 72% o denantiaethau yn derbyn budd-daliadau lles a chymorth costau tai gydag unrhyw gynnydd mewn rhent, a delir gan y cymorth hwnnw, a rhoddwyd sicrwydd ynghylch gwaith parhaus i gefnogi tenantiaid cymaint â phosibl. Roedd ymrwymiad i beidio â throi neb allan oherwydd caledi ariannol a darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i denantiaid.

Roedd y Cabinet yn cydnabod yr angen i gydbwyso lefel y cynnydd mewn rhent i gwrdd ag anghenion buddsoddi'r stoc dai yn y dyfodol yn erbyn fforddiadwyedd i denantiaid. Dywedodd y Cynghorydd Julie Matthews, bod y Cabinet wedi gofyn am ragor o fanylion, nad oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, o ran

gwerthusiadau dewisiadau o gynnydd canrannol eraill at ddibenion cymharu, er mwyn gwerthuso'r effaith ar y gwahanol lefelau a gwneud penderfyniad gwybodus. Wrth drafod, roedd yn ymddangos y bu peth camddealltwriaeth ynghylch lledaenu'r data hwnnw a oedd ar gael yn rhwydd ac wedi'i ddosbarthu i aelodau ar gais, ac ymddiheurodd swyddogion nad oedd y Cynghorydd Matthews wedi derbyn y data modelu. Fe nodwyd yn yr adroddiad bod pob cynnydd o 1% mewn rhent yn cyfateb i £170,000 bob blwyddyn ar gyfer benthyciadau buddsoddi, gyda 3% o gynnydd yn effeithio'n sylweddol ar y rhaglen gyfalaf.

O ran cydbwyso'r effaith ar fuddsoddiad tai a fforddiadwyedd i denantiaid, ymatebodd y Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol fel a ganlyn –

- cynigiwyd y 5% arfaethedig yn dilyn modelu helaeth o wahanol ddewisiadau er mwyn sicrhau bod tai cyngor yn cael eu cynnal i safon briodol, yn ogystal â chyflawni rhwymedigaethau cytundebol o ran adeiladau newydd; byddai unrhyw gynnydd is yn arwain at leihau'r safonau hynny, a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad ychwanegol yn y dyfodol, a thynnu'n ôl o adeiladau newydd, o ystyried yr effaith ar y capasiti benthyca ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol. Er y byddai cynnydd uwch yn well o ran ariannu buddsoddiad a gwariant cyfalaf uwch, derbyniwyd bod angen cydbwyso hynny yn erbyn fforddiadwyedd i denantiaid.
- roedd adroddiad ar effeithlonrwydd, gwerth am arian a fforddiadwyedd wedi'i atodi yn Atodiad 3 yn yr adroddiad, gyda manylion y cyfrifiadau hynny. Roedd y 5% arfaethedig yn hanner y gyfradd chwyddiant, roedd yr isafswm cyflog a'r budd-daliadau lles yn cynyddu o 10%, a dylai'r rhan fwyaf o gyflogau gynyddu o 5%. Roedd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eraill yn dilyn dull tebyg. Derbyniwyd bod pob aelwyd yn wahanol ac y byddai pob achos yn cael ei drin yn wahanol gyda chefnogaeth wedi'i thargedu i denantiaid. Pe bai'r cynnydd mwyaf o 6.5% yn cael ei gyflwyno, byddai'r Cyngor yn dal ar eu colled y flwyddyn nesaf, gyda llai o welliannau i dai cyngor, oherwydd cynnydd mewn costau cynnal a chadw a chyfalaf a diffyg cynnydd mewn rhent i fodloni'r lefelau hynny. Byddai cynnydd o lai na 5% yn arwain at fwy o denantiaid yn colli allan ar fuddsoddiadau yn eu cartrefi a safonau tai is.

Trafododd y Cabinet y mater yn fanwl, ac yn gyffredinol roedd yn fodlon bod y sylw a'r gofal dyledus wedi'i roi i ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir, er y byddai dim cynnydd o gwbl wedi bod yn well, o ystyried y pwysau presennol ar gyllid aelwydydd. Nodwyd y byddai'r cynnydd yn cael ei dalu gan fudd-daliadau lles a chymorth costau tai ar gyfer 72% o denantiaethau, ond byddai mwy o effaith ar y 28% sy'n weddill ac roedd y Cabinet yn falch o nodi'r gefnogaeth gynhwysfawr sydd wedi'i thargedu ar gyfer tenantiaid ac na fyddai neb yn cael eu troi allan oherwydd caledi ariannol. Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl i denantiaid a buddsoddi yn eu cartrefi, yn benodol o ran effeithlonrwydd tanwydd o ystyried yr argyfwng ynni a allai arbed costau, ac roedd yn hanfodol bod gwaith yn parhau er budd tenantiaid. Cyfeiriwyd hefyd at flaenoriaeth y Cyngor i fuddsoddi mewn adeiladau newydd i gwrdd â'r angen sylweddol am dai yn y sir.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau a sylwadau pellach fel a ganlyn –

- cadarnhawyd bod 2100 o bobl ar y rhestr aros am dai gydag angen enbyd am dai cymdeithasol ac roedd gwaith yn cael ei wneud rhwng yr awdurdod a chymdeithasau tai lleol i ddiwallu'r anghenion hynny orau yn y farchnad dai heriol bresennol
- roedd modelau rhenti wythnosol yn ôl math o eiddo wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 yn yr adroddiad yn seiliedig ar gynnydd o 5% a 6.5% yn ôl y math o eiddo; ar gyfer tŷ tair llofft, byddai'r cynnydd o 5% yn cyfateb i gynnydd wythnosol o £5.53
- rhoddwyd sicrwydd y byddai cynnydd o 5% yn caniatáu'r Cyngor i barhau â'r cynnydd o ran cynnal safonau tai yn seiliedig ar y taflwybr cyfredol a chyrraedd y targed o 170 tŷ ychwanegol dros y cyfnod o 5 mlynedd. Fodd bynnag, ni fyddai modd cyrraedd y Safon Ansawdd Tai Cymru newydd, gan gynnwys sero net erbyn 2033, heb gymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac roedd trafodaethau ar y gweill rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru o ran hynny, o ystyried yr ansicrwydd yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Matthews yn cydnabod yr angen am gynyddu rhent a dadleuon dilys a gyflwynwyd, ond ailadroddodd y pryderon nad oedd modelau data'r holl ddewisiadau wedi'u rhannu â'r Cabinet o'r dechrau, ar gyfer llywio'r broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig o ystyried y byddai unrhyw gynnydd yn cael effaith andwyol ar aelwydydd, gyda mwy o effaith ar y 28% o aelwydydd sydd mewn gwaith ac nad ydynt yn derbyn budd-daliadau. Teimlai hefyd y dylid defnyddio dull mwy cyfannol â phenderfyniadau eraill a fyddai'n effeithio ar incwm pobl. Roedd y farn yn gymysg ynghylch a ddylai modelau data llawn o ddewisiadau fod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad neu fod ar gael i aelodau ar wahân. Roedd yr Arweinydd yn ffafrio adroddiad dewisiadau, ond roedd yn teimlo bod y data a ddarparwyd yn yr adroddiad yn ddigonol ar gyfer gwneud penderfyniad.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhys Thomas nad oedd y Cynghorydd Matthews wedi derbyn y data. Roedd yn teimlo y cafwyd trafodaeth dda ynghylch y materion, gan ailadrodd ei fod yn benderfyniad anodd a bod angen cydbwysedd, a phwysleisiodd bod yr holl arian yn y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei ddefnyddio er budd tenantiaid Sir Ddinbych. Byddai cynnydd o lai na 5% mewn rhent yn effeithio'n andwyol ar waith i wneud gwelliannau a chynlluniau i adeiladu tai newydd i fodloni'r angen am dai. Wrth bleidleisio –

PENDERFYNWYD –

(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);

(b) cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol o 5%, i'w weithredu o ddydd Llun 3 Ebrill 2023;

(c) nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) ar Fforddiadwyedd, Effeithiolrwydd Cost a Gwerth am Arian, a

(d) bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 4 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

[Pleidleisiodd y Cynghorydd Julie Matthews yn erbyn y penderfyniad uchod.]

6 Y BROSES GYFALAF A DYFODOL Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ynghylch proses gosod cyllideb cyfalaf newydd arfaethedig a newidiadau i'r Cylch Gorchwyl ac enw'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo y rhesymeg sy'n sail i'r adolygiad o'r broses gyfalaf, gan ystyried adborth gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac er mwyn sicrhau dull mwy strategol. Cafodd y cynigion eu trafod yn Sesiwn Friffio'r Cabinet, yr Uwch Dîm Arwain, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd wedi rhoi mewnbwn. Cafodd y Cabinet eu harwain trwy'r fersiwn ddrafft o'r broses gyfalaf, fel y'i nodir yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys Grŵp Caffael Cyfalaf newydd arfaethedig. Roedd yr egwyddorion arweiniol a oedd yn sail i'r adolygiad yn cynnwys yr angen am lywodraethu, craffu a thryloywder cryf a chydamseru prosesau.

Roedd prif bwyntiau'r cynnig yn cynnwys –

- sefydlu Grŵp Craffu Cyfalaf sy'n cynnwys uwch swyddogion allweddol a chynrychiolwyr o'r Cabinet a Phwyllgorau Craffu i adolygu cynigion achos busnes ar gyfer buddsoddiad cyfalaf (ac eithrio cynlluniau llai na £0.250 miliwn a ariannwyd 100% gan gyllid grant allanol, i'w cymeradwyo ar lefel uwch swyddog)
- ni fyddai'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn gwneud penderfyniadau ffurfiol, ond byddai eu barn yn cael ei ystyried gan gyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau: Y Cabinet i gymeradwyo cynlluniau cyfalaf, ond mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar gyfer y Cynllun Cyfalaf blynyddol; y Tîm Gweithredol Corfforaethol i gymeradwyo cynlluniau llai na £1 miliwn os bydd y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi cofnodi cymorth; y Cabinet i wneud y penderfyniad terfynol ar bob cynllun dros £1 miliwn; gallai cynlluniau llai na £1 miliwn na chefnogir gan y Grŵp Craffu Cyfalaf gael eu cyflwyno i'r Cabinet gan y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer penderfyniad terfynol, os nad oes modd dod i gytundeb.
- roedd angen gwaith pellach ar fanylion y ffurflenni cais cyfalaf a'r broses, gyda'r nod o gwblhau pob prosiect cyfalaf ar ffurflenni prosiect Verto, i gynnwys yr holl wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar achosion busnes cyfalaf, byddai canllawiau gweithredol manwl yn cael eu llunio erbyn y Gwanwyn.
- byddai'r Grŵp Craffu Cyfalaf a Bwrdd y Gyllideb yn cael eu cefnogi gan Wasanaethau Pwyllgorau o fis Ebrill a byddai'r broses a'r cylch gorchwyl yn destun adolygiad blynyddol.

Croesawodd y Cabinet yr ymgynghoriad ar y broses newydd arfaethedig, gan gynnwys craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y dull hwnnw, ac roedd yn cefnogi'r broses newydd fel modd o gryfhau'r prosesau democrataidd a darparu mwy o dryloywder o ran y trefniadau craffu a gwneud penderfyniadau dan sylw. Rhoddodd y Cynghorwyr Arwel Roberts a Gareth Sandilands, aelodau blaenorol o'r Grŵp Buddsoddi Strategol eu safbwynt ar y trefniadau blaenorol, a oedd yn ddefnyddiol i'r Cabinet, ac roeddent yn mynegi eu cefnogaeth ar gyfer y broses newydd arfaethedig a rhinweddau'r dull hwnnw. O ystyried y newidiadau sylweddol

ar lefel y Cabinet ac uwch swyddogion ers etholiadau llywodraeth leol mis Mai, ystyriwyd ei bod hi'n amserol adolygu a gweithredu'r dull newydd. Amlygwyd pwysigrwydd ymrwymiad y Cyngor llawn i'r broses, gyda phawb yn cydweithio er budd holl drigolion y sir.

Mewn ymateb i'r cwestiynau, dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo –

- er y byddai'r newid arfaethedig i gynlluniau cyllid grant yn ystod y flwyddyn hyd at £0.250 miliwn i'w gymeradwyo ar lefel swyddog yn symleiddio'r broses honno, mai prif nod y broses newydd oedd darparu dull mwy strategol â mwy o dryloywder, gyda gwybodaeth ar gael yn rhwydd a hygyrch ar modern.gov, a sicrhau mwy o graffu ar gynlluniau a phenderfyniadau mwy a wneir.
- roedd y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen foderneiddio ysgolion trwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a chafodd cyllid ei sicrhau yn y cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer y pwrpas hwnnw. Fodd bynnag, byddai'r achosion busnes ar gyfer y cynlluniau unigol yn cael eu craffu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf. Byddai dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau cyfalaf y Gronfa Ffyniant Bro; cymeradwyodd y Cyngor 10% o arian cyfatebol a bellach mae cais Etholaeth De Clwyd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU; byddai'r achosion busnes ar gyfer y cynlluniau unigol yn destun craffu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf.
- roedd manylion y gwariant cyfalaf presennol wedi'u cynnwys yn adroddiad cyllid misol y Cabinet. Roedd y Cynllun Cyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 yn £51.8 gyda gwariant hyd yma o £17.9 miliwn, a oedd yn nodweddiadol ar y cam hwn o'r flwyddyn ariannol
- yn y cyfnod interim ers etholiadau mis Mai, deliwyd â materion sydd fel arfer yn cael eu hystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol trwy Fwrdd y Gyllideb, ac roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet gyda chynlluniau dros £1 miliwn. Roedd disgwyl i'r Grŵp Craffu Cyfalaf fod yn ei le yn gynnar y flwyddyn nesaf, gyda gwybodaeth ar gael ar modern.gov o fis Ebrill 2023, a darparwyd trosolwg o waith cychwynnol y Grŵp Craffu Cyfalaf. Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau cyfalaf yn ymwneud â phenderfyniadau gweithredol a wnaed gan y Cabinet neu'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, ond yn amlwg yn seiliedig ar argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf.

Yn dilyn adolygu'r broses gyfalaf newydd arfaethedig –

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cymeradwyo'r broses gyfalaf newydd, a

(b) chefnogi Cylch Gorchwyl drafft y Grŵp Craffu Cyfalaf, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp.

Ar y pwynt hwn (11.30 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth a gytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Darparwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- roedd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 yn £233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22).
- rhagwelwyd gorwariant o £2.189 miliwn yn y cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (gorwariant o £5.535 miliwn fis diwethaf)
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chwyddiant.
- arbedion gwasanaeth manwl a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau (£0.754 miliwn); ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion.
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys, y Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo cynlluniau i wario grant cyfalaf (£1.203 miliwn) i uwchraddio cyfleusterau cegin ac ystafell fwyta ysgolion er mwyn darparu ar gyfer y cynllun prydau ysgol am ddim cynradd cyffredinol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar y camau a gymerwyd i leihau'r gorwariant a ragwelir o £5.535 miliwn o'r mis diwethaf i £2.189 miliwn a oedd yn cynnwys tanwariant mewn costau ariannu cyfalaf yn bennaf oherwydd oedi â phrosiectau; £400,000 o'r arian wrth gefn yn dilyn trosglwyddiadau ariannol terfynol ar y setliad cyflog; £230,000 yn deillio o'r arbedion dulliau newydd o weithio yn ymwneud â chostau teithio staff, a thua £1 miliwn mewn arbedion gwasanaeth o oedi wrth recriwtio a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Ategwyd pwysigrwydd lleihau'r tanwariant, a fyddai'n caniatáu tua £2.7 miliwn o'r gronfa wrth gefn lliniaru cyllideb i helpu ariannu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn caniatáu amser i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Er bod sefyllfa'r gyllideb wedi gwella'n sylweddol ers y mis blaenorol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa hyd yma, efallai y nodir pwysau eraill yn y dyfodol, megis cynnal a chadw yn y gaeaf, o ystyried yr amodau oer presennol. Yn olaf, cyfeiriwyd at yr argymhelliad i gymeradwyo cynlluniau i wario grant cyfalaf i uwchraddio cyfleusterau ystafelloedd bwyta a cheginau ysgolion, a gefnogwyd gan Fwrdd y Gyllideb.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Gill German ar gyflwyno'r cynllun prydau ysgol am ddim cyffredinol yn raddol fel rhan o'r cytundeb partneriaeth rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru ar lefel Llywodraeth Cymru, er budd pob plentyn ysgol gynradd. Cyfeiriodd at yr heriau o ran uwchraddio ceginau a chyfleusterau a diolchodd i'r Tîm Arlwyo a fu'n gweithio'n ddiflino i ddarparu'r cynllun, ac a fyddai o ganlyniad yn cael ei gyflwyno'n gynnar i holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn Sir Ddinbych o fis Ionawr 2023. Roedd y grant cyfalaf yn hanfodol o ran gweithredu'r cynnig pryd ysgol am ddim a sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn ei le.

Adroddodd y Cynghorydd German hefyd am y digwyddiad Nadolig Gofalwyr Maeth diweddar a'r cynnig rhagorol ar gyfer maethu'r awdurdod lleol gan gynnwys y lefel o

ofal a chymorth y naill a'r llall yn y gwasanaeth. Cydnabuwyd y pwysau cyllidebol yn y maes gwasanaeth hwnnw a rhoddwyd sicrwydd y byddai gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol a hyrwyddo'r gwasanaeth maethu a'i fuddion ymhellach yn y flwyddyn newydd.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn:*

(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a

(b) chymeradwyo'r cynlluniau i wario grant cyfalaf (£1.203 miliwn) i uwchraddio cyfleusterau ystafell fwyta a cheginau ysgolion er mwyn darparu ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am Ddim Cynradd Cyffredinol fel y manylir yn adran 6.9 yn yr adroddiad ac Atodiad 5 yn yr adroddiad.

8 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol -

- Ysgol Plas Brondyffryn (Achos Busnes Amlinellol) – wedi'i dynnu o raglen mis Ionawr
- Ysgol Plas Brondyffyrn (Adolygu adroddiad gwrthwynebu) – wedi'i ychwanegu at raglen mis Chwefror
- Strategaeth Ynni Gogledd Cymru – wedi'i ychwanegu at raglen mis Chwefror

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

9 ARGYMELL Y GRŴP GOSOD FFI RANBARTHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton adroddiad cyfrinachol i ofyn i'r Cabinet gymeradwyo argymhellion ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio, Grŵp Ffioedd Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24.

Roedd Grŵp Ffioedd 2023/24 yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chrëwyd argymhelliad unigol ar gyfer ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio 2023/24 gan gynnwys: Gofal Preswyl Cyffredin; Gofal Preswyl ar gyfer yr Henoed gyda Salwch Meddwl; Gofal Nyrsio, a Gofal Nyrsio ar gyfer yr Henoed gyda Salwch Meddwl. Cyfeiriwyd at y fethodoleg a'r canllawiau a ddefnyddiwyd ynghyd â data perthnasol ac oriau gofal diwygiedig i gyfrif am gymhlethdod cynyddol yr angen er mwyn cyflawni argymhelliad. Cytunodd y Grŵp Ffioedd yn unfrydol â'r argymhellion yn yr adroddiad, ac roeddent o'r farn eu bod yn gyfraddau rhesymol ac yn amddiffyn

pedwar categori Cartref Gofal. Cafodd tabl o gyfraddau ffioedd Cartrefi Gofal Sir Ddinbych ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd canrannol ar gyfer 2023/24 hefyd ei gynnwys at ddibenion cymharu. Darparwyd manylion ynghylch y cynnydd o ran y costau a ragwelir yng ngwariant Cartref Gofal Sir Ddinbych.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a thrafod gwerth y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd fel y nodir, gan gynnwys y rhesymeg sy'n sail i ganran yr enillion ar fuddsoddiad, er mwyn adlewyrchu'r dull rhanbarthol a'r effaith ddilynol ar faint yr elw, y dylid ei amlygu. Mynegwyd peth pryder ynghylch y sylw negyddol yn y wasg gan ffynonellau nad ydynt yn adlewyrchu'r sefyllfa'n gywir o ran ffioedd cartrefi gofal a'r berthynas â darparwyr gofal. O ran ansawdd y gofal a ddarperir, rhoddwyd sicrwydd gan swyddogion ynglŷn â'r broses monitro contract a'r adolygiad rheolaidd o becynnau gofal er mwyn sicrhau safonau uchel.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn derbyn holl argymhellion y Grŵp Ffioedd, fel y nodir yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.